# Vocations Sunday 2024

## Galwad i Addoli

Dduw cariadus, ein rhiant, rwyt yn galw arnom i addoli,
i ymgynnull mewn stori a chân.

Yn cyrraedd yn gynnar mewn pryder,
**rwyt yn galw arnom.**

Yn cyrraedd yn hwyr mewn panig,
**rwyt yn galw arnom.**

Mewn angen am le personol,
**rwyt yn galw arnom.**

Mewn angen am gysylltiad a chyswllt,
**rwyt yn galw arnom.**

Yn ceisio tawelwch o'r byd,
**rwyt yn galw arnom.**

Yn ceisio siarad yn faith am ein cariad a'n colledion,
**rwyt yn galw arnom.**

Yn dyheu am ragweladwyedd a threfn,
**rwyt yn galw arnom.**

Yn dyheu am wahaniaeth a newid,
**rwyt yn galw arnom.**

Gyda gwahanol feddyliau a gwahanol galonnau ,
gwahanol gyrff a gwahanol fywydau
rwyt ti'n galw arnom yn dy gariad i fod yn un.
**Rydym yn dod. Amen.**

### *Caneuon Ffydd* (*CFf*) 479 Daeth Crist i'n plith, O llawenhawn

*Er yn aml yn cael ei chanu adeg y Nadolig ysgrifennwyd yr emyn hwn gan Isaac Watts wrth fyfyrio ar Salm 98 – un o'n darlleniadau llithiadur. Weithiau mae'n dda symud ein persbectif a newid ein meddylfryd wrth iddo agor ystyr newydd i ni yn ein haddoliad.*

# Gweddïau Agoriadol

### *Yn seiliedig ar Salm 98*

Dduw cariad, creawdwr pob peth,
mae rhyfeddodau'r greadigaeth o'n cwmpas ac yn ein syfrdanu,
yr hyn a ddaeth i fod â gair wedi'i dywallt mewn cariad.
Mae'r greadigaeth yn dirgrynu o hyd â'r gair hwnnw, yr hen gân,
Ein lleisiau fyrdd, amhersain, ond eto'n gydseiniol mewn cân newydd o fawl!

Mae dy gariad di-ddiwedd, di-ffael,
yn estyn allan fel breichiau cryfion;
yn codi'r rhai syrthiedig, yn amddiffyn y gwan, yn rhwymo'r toredig,
yn ein hachub tra roeddem mewn perygl,
ac yn dangos i bawb dy gyfiawnder.

Mae'r gerddoriaeth ynom ni, yn codi ar hyd y ddaear,
gwahanol nodau, cordiau, ac alawon,
caneuon a geiriau amrywiol, pob un yn canu cariad a defosiwn.
Yn taro, pibyddio, canu unrhyw beth wrth law;
y cyfan i foliannu ein Duw Cariad.

Mae'r greadigaeth yn ymuno â'n cân,
tonnau yn chwalu fel symbalau,
cân y morfilod yn llenwi'r môr fel cerddoriaeth organ.
Mae clep a bwrlwm dŵr yr afon yn cadw'r rhythm
wrth i'r bryniau a'r mynyddoedd ganu â llawenydd,
wrth i ti, Arglwydd, ddawnsio trwy dy greadigaeth,
a chymryd llaw dy bobl:
I reoli dy deyrnas ac arwain ni yn dy ddawns.

# Cyffes

Am yr adegau pan nad yw ein cariad wedi adlewyrchu dy gariad di,
**Arglwydd, maddau i ni.**

Am yr adegau pan fu ein cariad yn rhy gul,
**Arglwydd, maddau i ni.**

Am yr adegau pan fyddwn yn rhoi pris i'n cariad,
**Arglwydd, maddau i ni.**

Am yr adegau pan fu inni dynnu ein cariad yn ôl,
**Arglwydd, maddau i ni.**

Am yr adegau pan fyddwn yn drysu dyletswydd gyda chariad,
**Arglwydd, maddau i ni.**

Yn enw dy fab,
a roddodd ei fywyd fel rhodd o gariad,
i ddod â ni adref tra roeddem yn dal ymhell i ffwrdd,
a gododd o farwolaeth,
er mwyn i ninnau hefyd gael ein cyfodi a'n huno ynot ti,
yr ydym yn gweddïo.
**Amen.**

# Gweddi'r Arglwydd

***gobaith.cymru* Fy Iesu, 'Ngwaredwr**

# Darlleniad

1 Ioan 5:1-9

# Sgwrs bob oed

Mae yna gêm mor hen â'r bryniau, gêm sydd wedi cael ei chwarae ym mhob grŵp ieuenctid, mudiad ieuenctid ac ysgol yn ôl pob tebyg.

Mae'r gêm yn un syml, felly mae'n teimlo fel pe bai'n amhosibl methu neu fynd 'allan' wrth i chi chwarae. Mae'r cyfarwyddiadau'n glir. Os dilynwch y cyfarwyddiadau yna ni ddylech gael unrhyw broblem.

Y drafferth yw, wrth i'r gêm fynd yn ei blaen, wrth i'r bobl ifanc fynd yn fwy a mwy cyffrous yn chwarae, y mwyaf tebygol yw bod camgymeriadau'n cael eu gwneud. Yr unig reswm i chi wneud camgymeriad yn y gêm hon yw drwy fethu â thalu sylw, drwy anwybyddu'r cyfarwyddiadau a gweithredu cyn i chi feddwl.

P'un a yw'r person sy'n arwain yn galw'r cyfarwyddiadau allan neu'n eu harwyddo neu os yw'n fflachio i fyny ar sgrin taflunydd, y cyfan sy'n rhaid i chi ei wneud yw eu dilyn.

Os, a dim ond os, mae'r cyfarwyddyd yn dechrau gyda, "Mae Simon yn dweud…".

Mae'n swnio mor hawdd, on'd ydyw?

Ond mae'n hawdd colli arnoch, i feddwl eich bod wedi clywed neu weld "Mae Simon yn dweud..." a dilyn y gorchymyn nesaf dim ond i ddarganfod eich bod yn un o ychydig yn unig sy'n patio eich pen ac yn rhwbio eich bol.

Mae yna adegau pan mae'n ymddangos bod Cristnogaeth yn gêm fawr o 'Mae Iesu yn dweud...', yn hytrach na 'Mae Simon yn dweud...'. Mae pawb mor awyddus i ddechrau gwneud yr hyn maen nhw'n meddwl eu bod nhw'n cael gorchymyn i wneud fel eu bod weithiau'n gwneud rhywbeth nad oedd yr hyn roedd Iesu yn ei ofyn o gwbl.

Efallai eu bod nhw'n beirniadu oherwydd eu bod nhw'n meddwl na ddylai rhai pobl fod yn rhan o deulu Iesu. Efallai eu bod yn farrus, gan ddal gafael ar arian y maen nhw'n meddwl dylai fod yn eiddo iddynt, oherwydd bod Duw wedi eu bendithio. Efallai eu bod nhw'n meddwl mai dim ond ar y Sul mae Duw eisiau iddyn nhw ddod i'r eglwys a bod gweddill eu hamser iddyn nhw ei ddefnyddio fel maen nhw'n dymuno.

Ydych chi'n gwybod sut i ennill yn 'Mae Simon yn dweud'? Rydych chi'n talu sylw, rydych chi'n aros ac yn meddwl am y cyfarwyddyd. Mae dilyn yr hyn y mae Iesu'n ei ddweud yr un peth: Rydych chi'n talu sylw i'r gorchymyn, yn aros am ennyd, yn meddwl amdano. A ddywedodd Iesu hyn?

Yn union fel yn y gêm 'Mae Simon yn dweud...', os na wnaeth Iesu ddweud hynny, yna peidiwch â'i wneud. Os dywedodd Iesu wrthych chi ei wneud, beth ydych chi'n meddwl y dylech chi ei wneud? Cywir, *ei wneud!*

Mae gorchmynion Iesu yn hawdd eu hadnabod oherwydd eu bod i gyd yn swnio'r un fath. Mae pob un yn swnio fel cariad.

Yn y darlleniad rydym ar fin clywed dywedodd Iesu, "Os cadwch fy ngorchmynion fe arhoswch yn fy nghariad, yn union fel yr wyf fi wedi cadw gorchmynion fy Nhad, ac yr wyf yn aros yn ei gariad ef. Dyma fy ngorchymyn i: carwch eich gilydd fel y cerais i chwi."

Mae'n rhaid i ni wrando am sŵn cariad yn y gorchymyn.

# Darlleniad

Ioan 15:9-17

***gobaith.cymru* Clywch leisiau'r nef**

# Myfyrdod

Wrth ddarllen y darn hwn gallwn feddwl, "Ble ar y ddaear ydw i'n dechrau? Oes rhaid i ni gadw holl orchmynion Crist, neu ydyn ni allan? Roeddwn i'n meddwl bod iachawdwriaeth i'w chael trwy ffydd nid gweithredoedd?"

Ai dyna oedd Iesu'n ei ddweud?

Efallai mai dyma oedd ffordd Iesu o ofyn, "Ydych chi i gyd wedi bod yn talu sylw? Ydych chi'n deall beth mae hyn yn ei olygu? Rwy'n mynd yn fuan ac mae angen i mi wybod eich bod chi'n ei ddeall." Efallai ei fod yn ymwneud â mwy na dilyn rheolau, efallai ei fod ychydig yn fwy am y rheswm pam rydyn ni'n gwneud yr hyn rydyn ni'n ei wneud.

Roedd Iesu'n dweud hyn wrth ei ffrindiau *ar ôl* iddyn nhw rannu pryd o fwyd oedd yn cynrychioli'r Pasg, gweithred o gofio hanes Iddewig pan arweiniodd Duw – trwy Moses – yr Israeliaid allan o gaethwasiaeth ac i ryddid.

Cymerodd Iesu'r ail-adrodd hwnnw a darllen cyd-destun newydd iddo, gan ddweud wrth ei ffrindiau sut y byddai ei aberth oedd i ddod yn arwain y byd o gaethwasiaeth i ryddid. Dyma'r cyd-destun y mae'r cyfarwyddyd i ufuddhau i orchmynion Crist yn dod iddo.

Ar ôl i'r Israeliaid ddianc o'r Aifft, derbyniasant orchmynion gan Dduw, deg ohonynt, gan ddweud wrthynt sut i fyw yn eu rhyddid newydd.

Felly, wedi i Iesu ein harwain trwy ei aberth i ryddid, rydyn ni hefyd yn cael gorchmynion.

Pan ddywed Iesu wrth ei ffrindiau, os ydyn nhw'n ei garu ef a Duw, yna byddan nhw'n cadw ei orchmynion ef a'i dad, roedd yn gyfarwyddyd ar sut i fyw yn rhyddid teyrnas Dduw. Ydych chi'n caru Iesu? Caru Duw? Gwych, gwnewch beth maent yn eu gorchymyn.

Mae 613 o orchmynion Iddewig, y *Mitzvot*. A ddywedodd Iesu wrthynt mai'r unig ffordd i aros yn ei gariad oedd cadw pob un o'r 613 gorchymyn?

Am neges olaf i'w ffrindiau fyddai hynny. Am bwysau ar eu hysgwyddau wrth iddynt ei weld yn codi ei groes a mynd i fyny'r bryn. Am bwysau arnom ni os ydym am ei ddilyn.

Mae'r ateb i hyn i'w gael yn y llythyr gan Ioan, sef y darlleniad cyntaf a osodwyd ar gyfer heddiw. A wnaethoch chi sylwi arno? Yn 1 Ioan 5, adnod 3: "Oherwydd dyma yw caru Duw: bod inni gadw ei orchmynion. Ac **nid yw ei orchmynion ef yn feichus**."

Yn y ffilm Disney *Encanto*, mae yna gymeriad o'r enw Luisa. Mae hi'n hynod o gryf ac, ynghyd â'i theulu hudol, mae hi'n helpu ei phentref. Y drafferth yw, gan ei bod yn gryf, ei bod yn ceisio cario pwysau'r byd ar ei hysgwyddau, ac yn ei chân, (oherwydd mai Disney ydyw, wrth gwrs mae ganddi gân!) mae'r craciau'n dechrau dangos.

Mae'n siarad, neu'n hytrach yn canu, am sut o dan yr wyneb, mae'r pwysau o geisio bod yn bopeth i bawb, cadw pawb yn ddiogel a hapus, yn pwyso arni nes ei bod ar fin torri. Mae'n cwestiynu a oes ganddi'r hyn sydd ei angen i wneud y dasg o gario'r cyfan.

Gwyddai Iesu rywbeth am gario beichiau. Dywedodd wrth bobl, os oedden nhw am fod yn ddisgybl iddo, bod angen iddyn nhw godi eu croes a'i ddilyn - mae hyn yn swnio fel baich enfawr, on'd ydyw? Ond beth petai Iesu'n golygu bod hyn i fod yn rhyddhaol yn hytrach na beichus? Yn ein darlleniad o'r Efengyl dywed Iesu: " Nid oes gan neb gariad mwy na hyn, sef bod rhywun yn rhoi ei einioes dros ei gyfeillion," felly efallai bod hyn yn ymwneud mwy â'n byw na'n marw, gan roi eich hunan byw mewn cariad.

Rywle arall pan mae Iesu'n sôn am gario beichiau, mae'n sôn mwy amdanyn nhw fel rhywbeth ysgafn. Pan mae'n anfon ei ddisgyblion allan ar genhadaeth, mae'n dweud wrthyn nhw am beidio â chario llwyth o bethau gyda nhw, dim ond nhw eu hunain.

Dro arall, wrth ddysgu'r rhai o'i gwmpas, dywedodd Iesu:

> "Dewch ataf fi, bawb sy'n flinedig ac yn llwythog, ac fe roddaf fi orffwystra i chwi. Cymerwch fy iau arnoch a dysgwch gennyf … Y mae fy iau i yn hawdd ei dwyn, a'm baich i yn ysgafn" (Matthew 11:28-30).

Roedd yr **iau** yn golygu rhywbeth i'r rhai oedd yn gwrando ar Iesu. Er bod iau yn hysbys fel offeryn amaethyddol, yn cael ei dynnu gan anifeiliaid fel ychen mewn caeau aredig, roedd yn symbol o faich, ac weithiau gormes. Roedd Duw wedi rhybuddio'r Iddewon y bydden nhw'n gorffen gydag **iau haearn**, mewn caethwasiaeth i'w gelynion, pe na fydden nhw'n glynu gyda Duw mewn llawenydd a gorfoledd. Weithiau roedd yn faich dyletswydd a chyfrifoldeb, fel y mae iau'r gyfraith Iddewig.

Hwn oedd y traddodiad; Dyna oedd y norm.

Roedd gan bob Rabbi ei **iau** ei hun, a hynny oedd dehongliad yr athro hwnnw o'r gyfraith (y Deg Gorchymyn a llyfrau Lefiticus a Deuteronomium). Roedd yn iau o wasanaeth i'r gyfraith, a sut roedden nhw'n tybied dylid ei dilyn, yr hyn roeddent yn ei gosod ar eu disgyblion. Byddai eu dysgeidiaeth yn aml yn pwysleisio'r holl ddyletswyddau a'r aberthu roedd y gyfraith yn ei fynnu a pha mor anodd oedd hi.

Dywedodd Iesu hyn am yr athrawon a wnaeth y ffordd o ddilyn Duw yn anoddach:

> "Y mae'r ysgrifenyddion a'r Phariseaid yn eistedd yng nghadair Moses. Felly gwnewch a chadwch bopeth a ddywedant wrthych, ond peidiwch â dilyn eu hymddygiad, oherwydd siarad y maent, heb weithredu. Y maent yn rhwymo beichiau trymion ac anodd eu dwyn, ac yn eu gosod ar ysgwyddau pobl, ond **nid ydynt hwy eu hunain yn fodlon codi bys i'w symud**. Cyflawnant eu holl weithredoedd er mwyn cael eu gweld gan eraill. Y maent yn gwneud eu phylacterau'n llydan ac ymylon eu mentyll yn llaes; y maent yn hoffi cael y seddau anrhydedd mewn gwleddoedd a'r prif gadeiriau yn y synagogau, a chael cyfarchiadau yn y marchnadoedd a'u galw gan bobl yn rabbi" (Matthew 23:2-7).

Byddai'r arweinwyr hynny'n cymryd y gyfraith ac yn ychwanegu tudalennau o atodiadau ynghylch sut y dylech ei gadw a'r hyn yr oedd y cyfan yn ei olygu. Felly daeth y Deg Gorchymyn yn gannoedd.

Un, yna 1a, 1b, 1c ac yn y blaen... yn gysylltiedig â phob gorchymyn y gellid ei ddarganfod yn y Beibl Hebraeg.

Nid i Iesu. Pan ofynnodd rhywun iddo pa un oedd y gorchmynion pwysicaf, cymerodd yr holl gyfraith a'r gorchmynion, ac yn lle pentyrru cyfarwyddyd ychwanegol dywedodd:

> "'**Câr yr Arglwydd dy Dduw** â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl feddwl.' Dyma'r gorchymyn cyntaf a'r pwysicaf. Ac y mae'r ail yn debyg iddo: '**Câr dy gymydog fel ti dy hun**.' Ar y ddau orchymyn hyn y mae'r holl Gyfraith a'r proffwydi yn dibynnu" (Matthew 22:37-40).

Dyna ni, nid 613 o ddeddfau Moses a'r holl sylwebaeth. Dau orchymyn: carwch Dduw, a charwch eraill a bydd y gweddill yn dilyn.

Dyma **iau hawdd** Iesu, y trawst y byddai am inni ei godi, ei osod ar draws ein hysgwyddau a'i gario.

Roedd Iesu'n dweud wrth bobl, os byddwch chi'n treulio'ch bywyd yn gweithio'n galed yn ceisio cadw llythyren y ddeddf, byddwch chi wedi ymlâdd ac yn methu â'i chadw. Roedd yr hyn a gynigiodd Iesu yn iau gwahanol, yn iau hawdd.

Gadewch i mi ddysgu gair Groeg newydd y gallwch ei ddefnyddio i greu argraff ar eich ffrindiau a synnu pobl mewn partïon. Lle mae'r gair 'hawdd', y gair Groeg yw *chrestos*, sydd â llawer o ystyron fel da, caredig a hawdd, ond mewn perthynas ag iau roedd yn golygu 'ffitio'.

Mae iau sy'n ffitio'n wael yn rhuglo a rhwbio: gallwch ddychmygu sut y byddai hyn yn tynnu sylw yn fwy na helpu, gydag angen cyson i newid eich ystum i'w gadw'n gyfforddus. Byddai gorchmynion Iesu am sut i fyw yn gweddu bywydau pobl, ni fyddent yn rhuglo, na rhwbio na chleisio, byddent yn eu galluogi i wneud yr hyn y cawsant eu galw iddo heb gael eu pwyso i lawr, ac fel iau ar ych byddent yn arwain y credadun yn y ffordd iawn.

Dyma'r gorchmynion, felly, y byddai Iesu am inni eu cadw i aros yn Nuw, yn y deyrnas, yn ein rhyddid ni. *Cariad*: carwch Dduw, carwch y ddynoliaeth.

Cofnodwyd geiriau ein darlleniad o'r Efengyl gan Ioan. Dyma eiriau Iesu, mae'n wir, ond Ioan a'u cofnododd, ac mae'n amlwg nad oedd yn ysgrifennu pob gair o eiddo Iesu. Ar ddiwedd yr efengyl mae'n ysgrifennu:

> "Y mae hefyd lawer o bethau eraill a wnaeth Iesu. Petai pob un o'r rhain yn cael ei gofnodi, ni byddai'r byd, i'm tyb i, yn ddigon mawr i ddal y llyfrau fyddai'n cael eu hysgrifennu" (Ioan 21:25).

Roedd papur yn beth drud ac roedd ysgrifennu â llaw yn cymryd amser. Felly pam wnaeth Ioan ailadrodd yr hyn oedd eisoes wedi cael ei ddweud yn glir? Credir mai Ioan yr Apostol a ysgrifennodd y llyfr hwn, felly yr oedd yno i glywed geiriau Iesu yn uniongyrchol. Yn ei Efengyl, mae'r gair 'cariad' yn ymddangos 57 o weithiau, yn fwy nag ym Mathew, Marc a Luc gyda'i gilydd ac yna 46 gwaith arall yn Epistol cyntaf Ioan.

Cariad yw'r thema ganolog sy'n rhedeg trwy ei ysgrifennu. Yn ôl y diwinydd William Barclay, "Mae Duw yn caru Crist, mae Crist yn caru Duw, mae Duw yn caru dynoliaeth, ac mae Cristnogion yn caru Duw trwy eu cariad tuag at Grist. Mae Cristnogion yn rhwym gyda'i gilydd trwy eu cariad at ei gilydd, sy'n adlewyrchiad o'u cariad tuag at Grist."

Ar ôl treulio'r holl amser hwnnw'n dilyn Iesu o gwmpas, gadawyd Ioan gydag un neges ddiffiniol y credai ef fod angen i'r Eglwys gyfan ei chymryd o ddifrif, i'w gwisgo fel bathodyn, yn faner i orymdeithio oddi tani: ***cariad***.

Mae heddiw'n Sul Galwad, yn amser yng nghalendr ein Heglwys pan fyddwn ni'n meddwl am alwad.

Gallwn gael ein dal gan syniadau ynghylch galwad a gweinidogaeth, fel pe baent yn cael eu cadw ar gyfer y dethol rai a fydd yn mynd ymlaen i wisgo stribed gwyn o blastig trwy eu coler a chamu allan i'r byd gan gynrychioli'r Eglwys a siarad dros Dduw.

Nid yw hyn yn wir. Mae gan bob person sy'n rhoi ei fywyd i Dduw, yn derbyn Iesu i'w galon ac yn dod yn ddinesydd teyrnas Dduw, alwad. Galwad a arweinir wrth ddilyn gorchymyn Crist i garu.

Cariad yw'r ffurfwisg rydyn ni'n ei gwisgo wrth i ni gamu i'r byd yn dilyn ein galwad.

Mae gan ffurfwisg bwrpas. Os ydych chi'n y Sgowtiaid neu'n Geidiaid rydych chi'n gwisgo ffurfwisg; Mae plant ysgol yn gwisgo gwisg ysgol; Swyddogion heddlu, milwyr a phobl cynnal a chadw ffyrdd, maent i gyd yn gwisgo ffurfwisg.

Mae'r ffurfwisg yn gwasanaethu sawl pwrpas. Mae'n dweud wrthych eich bod chi'n perthyn i rywbeth, mae'n dweud wrth gyd-chwaraewyr eich bod chi'n perthyn iddyn nhw, mae'n dweud wrth eraill pwy rydych chi'n perthyn iddyn nhw a beth yw eich gwerthoedd, a gall eich amddiffyn chi wrth wneud yr hyn y gofynnir i chi ei wneud.

Rydyn ni'n gwisgo ffurfwisg o gariad, ac yn ein galwad unigol ein hunain byddwn ni'n cynrychioli'r Eglwys ac yn siarad am Dduw.

Roedd Iesu eisiau bod yn sicr y byddai'r byd heb amheuaeth pwy oedd ei ddilynwyr.

Nid am eu cyfoeth – oherwydd pysgotwyr, merched, a chasglwyr trethi di-waith tlawd oeddynt yn bennaf. Nid am eu cyfiawnder - bydden nhw'n parhau i gael pethau'n anghywir, i wneud camgymeriadau. Nid am eu cyflwr dibechod – oherwydd dim ond Iesu oedd heb bechod. Nid am basio barn ar eraill, bod yn ddethol neu am gadw pobl allan. Nid am sancteiddrwydd na phurdeb digyffelyb.

Na, bydden nhw'n cael eu hadnabod fel ei bobl ef oherwydd y cariad roedden nhw'n ei rannu a'r cariad maen nhw'n ei ddangos. Trwy ymgorfforiad y ddau orchymyn mwyaf a'r gorchymyn a roddodd iddynt. Carwch yr Arglwydd eich Duw gyda phopeth sydd gennych – meddwl, corff, enaid ac ysbryd – a charwch eich cymydog fel y dylech garu'ch hun. Carwch eich gilydd fel y cerais i chwi. ***Carwch***.

Carwch yn hael fel y tad afradlon yn cyfarch ei fab coll.

Carwch â haelioni mor ddiduedd fel y Samariad Trugarog yn gofalu am un a fyddai'n ei gasáu neu ei ddirmygu.

Carwch gyda'r ymroddiad i'n galwad fel y gwnaeth Philip y diacon; dweud wrth y swyddog o Ethiopia, eunuch, estron, am gariad Duw tuag atynt.

Dyma'r cariad rydyn ni'n cael ein galw i'w rannu!

Carwch gyda'r afiaith dichwant a ddangosodd Iesu wrth garu eraill; puteiniaid, pechaduriaid, casglwyr trethi, estroniaid a rhai o grefyddau eraill, nid yn beirniadu nac yn eithrio ond yn gariadus ac yn gynhwysol.

Mae caru fel hyn yn gostus, mae'n beryglus, bydd yn gwneud gelynion ymhlith y crefyddol fel y gwnaeth i Iesu. Bydd yn cywilyddio eraill na allant ddod â'u hunain i garu fel hyn.

Ond, frodyr a chwiorydd, pa ddewis sydd gennym ni? Dywedodd Iesu "Dyma fy ngorchymyn i: carwch eich gilydd fel y cerais i chwi" (Ioan 15:12).

Carwch yn ddiamod fel y mae Duw'n caru. Carwch, am fod Duw yn gyntaf wedi ein caru.

### *CFf* 731 Gariad dwyfol uwch pob cariad

## Gweddïau

Iesu Grist, ein brawd, ein cyfaill.
Cariad Duw mewn cnawd, cariad Duw yn cerdded gyda ni, cariad Duw yn siarad â ni. Personoliad cariad, ym mhresenoldeb dy ffrindiau, gan wybod dy fod yn mynd i fod yr aberth cariad eithaf trwy roi dy fywyd, gan wybod dy fod yn dychwelyd at dy Dad, fe wnaethost ti drosglwyddo dy genhadaeth o gariad.

Gofynnaist iddynt, a ninnau, dy ddatguddio i eraill, i ddangos ein bod yn perthyn i ti. Gweddïaist y byddet ti'n cael dy ddatguddio trwy weithredoedd y bobl a'th ddilynodd di: Nid trwy bregethu mewn rhagoriaeth foesol, nid mewn barn, nid mewn condemnio eraill, na hyd yn oed mewn gweithredoedd o dduwioldeb a sancteiddrwydd.
Trwy ein cariad yn unig.

Ysbryd Glân ynom ni,
Trwy ein cariad ni, rwyt ti'n datguddio Iesu, yn datguddio'r Tad.
Fel pobl a'n gwnaed ar ddelw Duw, fe'n gelwir i garu fel yr oedd Crist yn caru; gweld delwedd Duw mewn eraill a datguddio Duw yn y byd.

Gweddïwn y dangosir dy gariad yn y byd, Arglwydd, ac y gallwn dderbyn ein galwad i fod yno, gan ddangos cariad Crist i bawb, gan garu'r ffordd yr oedd Iesu'n caru.

Duw cariad, cariad o'n cwmpas, yr hwn a'n creodd ni mewn cariad, trwy gariad ac ar gyfer gariad, i dderbyn dy Ysbryd, i ddilyn dy Fab ac i wasanaethu'r byd mewn cariad. Mae gennyt gynllun, cenhadaeth, a galwad i bob un ohonom.

Cyfeiria'n bywydau, Dduw cariad, er mwyn i'r greadigaeth gael ei hadfer i ti trwy dy gariad.
**Amen.**

Ym mhresenoldeb y toredig a'r gorthrymedig, a'r di-rym:
**Boed i'th enw fod yn hysbys a boed i'th gariad gael ei ddangos.**
Y cariad sy'n rhwymo'r toredig ond yn wynebu'r pwerau sy'n torri pobl.

Ym mhresenoldeb y rhai nad ydynt yn gwybod o ble daw eu pryd nesaf:
**Boed i'th enw fod yn hysbys a boed i'th gariad gael ei ddangos.**
Y cariad sy'n bwydo'r newynog ac yn herio trachwant y rhai a fyddai'n atal bendith.

Ym mhresenoldeb y rhai ohonom y difethir eu bywydau gan ddewisiadau a wnaed:
**Boed i'th enw fod yn hysbys a boed i'th gariad gael ei ddangos.**
Y cariad sy'n golchi traed budr wrth gerdded yn y byd ond hefyd yn ceisio glanhau'r llygredd o'r cread wrth i ni deithio.

Ym mhresenoldeb yr ynysig a'r unig, y rhai ar yr ymylon a'r gorthrymedig:
**Boed i'th enw fod yn hysbys a boed i'th gariad gael ei ddangos.**
Y cariad sy'n ceisio dod o hyd i'r rhai coll ac yn chwalu'r waliau a fyddai'n cadw pobl allan.

Ym mhresenoldeb y rhai a ddaliwyd ar groesffordd gyda map wedi malu a chwmpawd wedi torri:
**Boed i'th enw fod yn hysbys a boed i'th gariad gael ei ddangos.**
Y cariad sy'n arwain y ffordd ac yn eistedd i aros gyda'r rhai sy'n ofni symud.

Ym mhresenoldeb y rhai sydd wedi'u distewi a'r rhai sy'n straenio eu synhwyrau i ddysgu am obaith:
**Boed i'th enw fod yn hysbys a boed i'th gariad gael ei ddangos.**
Y cariad sy'n gweiddi am Dduw i'r byd ac yn gwrando ar straeon Duw gan y rhai sy'n dal i geisio.
**Amen.**

# Myfyrdod

Gall cariad fod yn nifer o bethau, ond mae gwir gariad yn dwyn adlais cariad Iesu.
Sut mae cariad o'r fath yn swnio?
Ai'r gân sy'n tynnu wrth dy galon ydyw?
Sut mae cariad yn swnio?
Ai sŵn ochenaid carwr ydyw?
Sut mae cariad yn swnio?
A yw'n swnio fel y ffrind agos sydd wedi dod i alw?
Sut mae cariad yn swnio?
Ai sŵn clychau capel yn canu wedi blwyddyn o dawelwch ydyw?
Sut mae cariad yn swnio?
Ai seiniau pêr yr adar wrth iddynt ganu ydyw?
Sut mae cariad yn swnio?
Ai sain feddal, llonydd o hyd rhiant yn cysuro eu plentyn ydyw?
Ai dyna sut mae cariad yn swnio?
Neu ai sŵn anadl olaf dyn sy'n marw, "Gorffennwyd."
Y Cariad rydyn ni'n cael ein galw i'w ddangos, i unrhyw un a phob un, yw cariad Iesu, cariad Duw.
Y cariad a ddangosodd Duw i ni, er ein bod eto yn bell i ffwrdd, bu farw Crist i'n hachub.
Gweddïwn yn enw Mab Duw Cariad.
**Amen.**

### *CFf* 775 O gariad pur, rhown iti glod

# Bendith

### Yn seiliedig ar Jwdas 24-25

Iddo ef, sydd â'r gallu ganddo i'ch cadw rhag syrthio, a'ch gosod yn ddi-fai ym mhresenoldeb ei ogoniant gyda llawenydd, iddo ef, yr unig Dduw, ein Gwaredwr, trwy Iesu Grist ein Harglwydd, y byddo gogoniant a mawrhydi, gallu ac awdurdod, cyn yr oesoedd, ac yn awr, a byth bythoedd.

Nawr, ddisgyblion Iesu Grist, gadewch inni fynd mewn heddwch i garu a gwasanaethu'r Arglwydd. Y cyfan yn enw Iesu.
**Amen.**

Daw pob dyfyniad o'r Beibl o'r Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig.
Hawlfraint © Cymdeithas y Beibl 2004.
Defnyddir trwy ganiatâd. Cedwir pob hawl.

Os hoffech chi ofyn am yr adnodd hwn mewn fformat arall,
cysylltwch â ni i drafod eich anghenion trwy
publishing@methodistchurch.org.uk

Cyhoeddwyd gan yr Eglwys Fethodistaidd ym Mhrydain Fawr. Rhif elusen gofrestredig 1132208
© Ymddiriedolwyr Dibenion yr Eglwys Fethodistaidd 2024